Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diweddariad Polisi'r UE (EU2012.02):

# Horizon 2020

## Diweddarwyd: 09 Chwefror 2012

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

### Cyflwyniad

Ar 30 Tachwedd 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion ar gyfer ***Horizon 2020***, Rhaglen Ymchwil ac Arloesi newydd ar gyfer 2014-2020, sydd wedi'i bwriadu i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategaeth Ewrop 2020 i sicrhau twf call, cynaliadwy a chynhwysol. Yn benodol, mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar y gwariant targed ym maes ymchwil a datblygu o 3% o gynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) erbyn 2020.

Daw rhaglen ***Horizon 2020*** â'r Rhaglen Fframwaith Ymchwil a'r Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi presennol ynghyd, yn ogystal â chymorth ar gyfer y corff newydd, **Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewrop** (a sefydlwyd yn 2008).

### Ewrop 2020

Mae Horizon 2020 wedi'i llunio'n benodol er mwyn cyflawni Ewrop 2020, prif strategaeth yr UE ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol. Yn benodol, mae ***Horizon 2020*** yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prif darged ar gyfer ymchwil (3% o CMC erbyn 2020), ac ystyrir mai dyma un o brif offerynnau ariannol yr UE o ran cefnogi'r broses o weithredu'r rhaglen Undeb Arloesi flaenllaw.

### Cyllideb arfaethedig o €17.3 biliwn

Bwriedir neilltuo cyllideb o tuag **€80 biliwn** (cynnydd o fwy na 40% o gymharu â'r cyllid ar gyfer 2007-2013) ar gyfer ***Horizon 2020***, a bydd y rhan fwyaf o'r arian hwnnw'n cael ei wario ar ymchwil.

### Strwythur y rhaglen newydd

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig y dylai Horizon 2020 fod yn seiliedig ar dri amcan strategol:

- Gwyddoniaeth ragorol: sy'n anelu at atgyfnerthu ac ehangu sylfaen ragoriaeth yr Undeb Ewropeaidd ym maes gwyddoniaeth. Mae'r rhan hon yn cynnwys pedwar amcan penodol:
  - Y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (ERC) - i ariannu ymchwil rhagorol ar sail cystadleuaeth ar draws Ewrop gyfan
  - Technolegau'r Dyfodol a Thechnolegau Newydd (FET) - i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu technolegau newydd radical yn seiliedig ar syniadau arbrofol risg uchel
  - Marie Curie Actions - i gefnogi hyfforddiant i ymchwilwyr, a symudedd ar draws ffiniau ac ar draws sectorau
  - Seilwaith ymchwil – i ddatblygu seilwaith ymchwil Ewropeaidd
- **Arweinyddiaeth ddiwydiannol**: sy'n anelu at gynnal a datblygu arweinyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd o ran technolegau galluogi ac ymchwil ac arloesi yn ymwneud â'r gofod. Y bwriad yw cynnwys cymorth ar gyfer:
  - Prif Dechnolegau Galluogi (KETs) - Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), Nanotechnolegau, Deunyddiau Uwch, Biotechnoleg, Gweithgynhyrchu a Phrosesu Uwch, a'r Gofod
  - Mynediad i gyllid risg - offeryn ariannol ar gyfer dyledion ac offeryn ariannol ar gyfer ecwiti er mwyn gwella proffiliau cyllid a risg gweithgareddau ymchwil ac arloesi
  - Arloesi mewn Busnesau Bach a Chanolig - prif

ffrydio cymorth i fusnesau bach a chanolig a hyrwyddo arloesi sy'n canolbwyntio ar y farchnad

Mae'r amcan strategol Arweinyddiaeth Ddiwydiannol yn dod ag elfennau ariannu 'arloesi' a drosglwyddwyd o'r rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi bresennol ynghyd yn ***Horizon 2020***.

- **Heriau cymdeithasol**: sy'n anelu at ddefnyddio ymchwil ac arloesi i fynd i'r afael â phryderon cymdeithasol mawr ledled yr Undeb Ewropeaidd. Nodir chwe her fawr:
    - Iechyd, newid demograffig a lles
    - Diogelwch bwyd, amaethyddiaeth gynaliadwy, ymchwil morol a'r bioeconomi
    - Ynni diogel, glân ac effeithlon
    - Trafnidiaeth gall, werdd ac integredig
    - Camau'n ymwneud â'r hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a deunyddiau crai
    - Cymdeithasau cynhwysol, arloesol a diogel

I raddau helaeth mae'r 'Heriau Cymdeithasol' yn disodli'r blaenoriaethau 'ymchwil thematig' sy'n ffocws prosiectau ymchwil cydweithredol presennol FP7. O ran ***Horizon 2020*** mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymchwil 'amlddisgyblaeth' yn yr amcan strategol hwn nag sy'n bodoli ar hyn o bryd yn achos FP7, gan geisio cefnogi gwaith ar draws meysydd, disgyblaethau a thechnolegau, ar hyd y gadwyn arloesi gyfan.

Yn ogystal â'r tri amcan strategol hyn bydd ***Horizon 2020*** hefyd yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i:

- **Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewrop (EIT)**: sy'n cynnwys y gwaith o integreiddio ymchwil, addysg ac arloesi drwy **Gymunedau Gwybodaeth ac Arloesi (KICs)** yr EIT.
- **Y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd:** i ddarparu tystiolaeth wyddonol gadarn a chymorth technegol ar gyfer pob un o dri amcan strategol ***Horizon 2020***.

Mae nifer o elfennau FP7 nad ydynt wedi'u cynnwys yn ***Horizon 2020*** ond sydd wedi'u cynnwys mewn offerynnau polisi/ariannu eraill yr UE. Er enghraifft, caiff y camau i gefnogi ehangu cyfranogiad mewn gwaith ymchwil yr UE drwy fentrau Rhanbarthau Gwybodaeth a Photensial Ymchwil FP7, eu prif ffrydio i Gronfeydd Strwythurol yr UE, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cynnwys mesurau yn *Erasmus for All* (cymorth symudedd yr UE ym maes addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon) i annog creu cynghreiriau gwybodaeth rhwng y byd academaidd a byd busnes.

Nod craidd ***Horizon 2020*** fydd cefnogi rhagoriaeth ym maes ymchwil ac arloesi yn yr UE, a bydd modd cael cyllid drwy geisiadau cystadleuol wedi'u rheoli'n ganolog gan yr UE (neu drwy ei asiantaethau). Mae hyn yn golygu na chaiff arian ei ddyrannu ymlaen llaw i Gymru nac i unrhyw Aelod-wladwriaeth. Bydd angen i sefydliadau o Gymru sy'n awyddus i gael arian drwy ***Horizon 2020*** lwyddo yn y rowndiau cystadleuol hyn. Yn y mwyafrif llethol o achosion gwneir hyn drwy brosiectau cydweithredol gyda phartneriaid o rannau eraill o'r UE (a'r tu allan i'r UE o bosibl).

## Amseru a'r broses ddeddfwriaethol

Ymdrinnir â'r cynigion drafft drwy'r 'weithdrefn ddeddfwriaethol gyffredin' sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor y Gweinidogion a Chyngor Ewrop gytuno ar y testun terfynol. Mae'r broses hon yn debygol o gymryd tua 18-24 mis (ond mae'n anodd rhoi amserlen benodol ar gyfer hyn) a gallai manylion y cynigion newid yn ystod y trafodaethau hyn.

## Cefndir a chyd-destun y cynnig

***Horizon 2020*** fydd prif ffynhonnell cyllid yr UE i brifysgolion, canolfannau ymchwil a busnesau yn y DU ar gyfer gweithgareddau ymchwil a datblygu, wedi'i hanelu at gefnogi'r gwaith o gyflawni targed yr UE o wario 3% o CMC ar ymchwil a datblygu erbyn 2020. Fel prif offeryn ariannol **Undeb Arloesi** yr UE, sef 'menter flaenllaw' strategaeth Ewrop 2020, mae hyn yn golygu mai dyma brif ffynhonnell cyllid yr UE (y tu allan i'r cronfeydd strwythurol) i gefnogi gweithgareddau arloesi yn economi'r UE.

Er 2000, un o'r prif sbardunau sy'n sail i bolisi ymchwil a datblygu'r UE fu sefydlu'r **Ardal Ymchwil Ewropeaidd (ERA)**, gyda'r nod o oresgyn y broblem o waith ymchwil 'tameidiog' ledled yr UE, er mwyn galluogi Ewrop i gystadlu'n fwy effeithiol yn rhyngwladol.

Lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd **ymgynghoriad cyhoeddus** i lywio'r gwaith o baratoi'r cynigion ar gyfer ***Horizon 2020*** ym mis Chwefror 2011, a daeth hwnnw i ben ym mis Mai 2011. Cyflwynwyd bron 900 o sylwadau, yn cynnwys sylwadau gan sector **Addysg Uwch Cymru** (AU), a oedd yn un o'r 90 o sylwadau a gyflwynwyd gan y DU.

Ymysg y sbardunau a fu'n sail i'r cynigion ar gyfer ***Horizon 2020*** roedd y gwaith i wella synergedd rhwng rhaglenni ariannu'r UE, yn arbennig Gronfeydd Strwythurol yr UE ac arian Ymchwil yr UE, yn erbyn cefndir o ddiffyg sylweddol mewn arian cyhoeddus a mesurau cyni cenedlaethol; canolbwyntio ar oresgyn y broblem o waith ymchwil tameidiog (fel y nodwyd eisoes); canolbwyntio ar sicrhau twf (yn arbennig y twf 'call' sy'n un o dargedau Ewrop 2020); a chreu cystadleurwydd rhyngwladol yng nghyd-destun yr argyfwng economaidd ac ariannol parhaus.

Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r ddadl ehangach ar Gyllideb yr UE, lle mae nifer o Aelod-wladwriaethau (e.e. y DU, Sweden a Denmarc), yn dymuno gweld mwy o bwyslais yng Nghyllideb yr UE ar gefnogi gwaith ymchwil ac arloesi yn hytrach nag amaeth.

## Perthnasedd i Gymru

Bydd y rhaglen ***Horizon 2020*** newydd o ddiddordeb penodol i'r sector AU a'r sector busnes yng Nghymru, ond mae potensial hefyd i awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol a chyrff eraill gymryd rhan yn amrywiol elfennau ***Horizon 2020***.

Mae prifysgolion Cymru wedi cyfranogi'n frwd yn Rhaglenni Ymchwil Fframwaith cyfredol a blaenorol yr UE. Prifysgol Caerdydd fu'r brifysgol fwyaf llwyddiannus, ac mae'r digwyddiad arfaethedig ar 21 Mawrth i ddathlu ei 100fed prosiect dan y Rhaglen Fframwaith yn adlewyrchu hynny.

Fodd bynnag, yn ystod y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru **ymchwiliad i gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes** a ddaeth i'r casgliad fod Cymru, at ei gilydd, yn tanberfformio mewn perthynas â rhaglenni ymchwil yr UE, yn arbennig o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Galwodd y Pwyllgor hwn am ddull gweithredu mwy strategol er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn:

> Canfu'r adolygiad hwn fod digon o gwmpas heb os i Gymru wella ei sefyllfa, yn enwedig o ran cael gafael ar gyllid gan y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu (FP7) er mwyn gwella'r capasiti ymchwilio yng Nghymru. Bydd cael dull mwy strategol i annog cyfranogiad yn yr holl raglenni UE hyn yn helpu i gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r nod cyfrannol Ewropeaidd, sydd wedi'i bennu yn strategaeth Ewrop 2020, i gynyddu'r gwariant ar ymchwil a datblygu yn sylweddol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Nododd y Pwyllgor yr angen am 'ragor o gyfatebolrwydd' rhwng gwahanol raglenni ariannu'r UE, yn cynnwys synergedd gyda rhaglenni Crofneydd Strwythurol yr UE yng Nghymru.

Yn ei **hymateb i'r ymchwiliad**, derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o argymhellion y Pwyllgor (rhai ohonynt 'mewn egwyddor').

Yn ogystal, nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu (y Trydydd Cynulliad) faterion tebyg yn ystod ei

**Ymchwiliad i sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)** (Tachwedd 2010-Ionawr 2011). Un o'i argymhellion oedd:

> y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod Cymru'n manteisio ar gyfleoedd cyllido annomestig fel y gall sefydliadau addysg uwch weithio gydag awdurdodau lleol a diwydiannau uwch-dechnoleg yn eu hardaloedd ar geisiadau ar y cyd i ddatblygu prosiectau arloesol ar gyfer annog pobl i ddewis meysydd yn ymwneud â STEM ym maes addysg a chyflogaeth.

Derbyniwyd yr argymhelliad gan **Lywodraeth Cymru**, a ddywedodd fod yr argymhelliad hwn hefyd yn ategu canfyddiadau adroddiad ei Phanel Adolygu Ymchwil a Datblygu ei hun, sef:

> the Assembly Government should provide advice and assistance to clients on external R&D programmes, work proactively to develop high quality bids, facilitate industry/academia links and proactively engage in the development of future frameworks e.g. EU Framework Programme 8.

## Synergedd gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE

O ran y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020 mae'r Pwyllgor yn rhoi cryn bwyslais ar gefnogi gwaith ymchwil ac arloesi yn rhaglenni gweithredol y dyfodol, drwy ganolbwyntio'r gwariant yn 'thematig' ar nifer fach o flaenoriaethau (sydd hefyd yn cynnwys rhaglenni carbon isel/ynni effeithiol, a chystadleurwydd busnesau bach a chanolig ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)).

Un o'r cysyniadau sy'n cael ei hyrwyddo gan y Comisiwn Ewropeaidd yw'r syniad o 'lwybrau i ragoriaeth', lle y defnyddir cronfeydd strwythurol yr UE i ddatblygu capasiti ymchwil ac arloesi er mwyn galluogi rhanbarthau sy'n tanberfformio i allu cystadlu'n well am arian ymchwil prif ffrwd (boed hwnnw'n arian o raglenni ymchwil cenedlaethol neu raglenni ymchwil yr UE, neu o'r sector preifat).

Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio mai byrdwn cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yw sicrhau bod ***Horizon 2020*** yn canolbwyntio'n benodol ar ragoriaeth, a defnyddio rhaglenni ariannu eraill yr UE, yn arbennig Gronfeydd Strwythurol yr UE, i gefnogi'r amcan polisi o gynyddu cyfranogiad mewn gwaith ymchwil. Fel y nodir uchod mae hyn yn wahanol i FP7, lle mae rhywfaint o gymorth ar gyfer ehangu mynediad a datblygu potensial rhanbarthol ar gael.

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn debygol o gynnal ymchwiliad i ***Horizon 2020*** yn ystod y misoedd nesaf, a disgwylir i'r ymchwiliad ganolbwyntio'n benodol ar y cysyniad 'llwybrau i ragoriaeth' a sut i wella perfformiad Cymru yn y dyfodol.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

***Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Femorandwm Esboniadol[1] ar 20 Rhagfyr 2011 yn amlinellu ei hymateb i gynigion y Comisiwn.***

Yn gyffredinol, mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn cefnogi cynigion drafft y Comisiwn Ewropeaidd.

> ...The Government agrees that ***Horizon 2020*** should play a central role in implementing the Europe 2020 strategy, notably the Innovation Union flagship initiative. It has the potential to help promote growth, quality of life and promoting sound, evidence-based policies at national and EU level. Overall, the Government considers that the Commission proposals are broadly in line with the UK's priorities set out in a position paper published in May 2011. (Paragraph 34 of EM)

Er ei bod yn cefnogi neilltuo cyfran fwy o gyllideb gyfan yr UE i ymchwil ac arloesi, nid yw Llywodraeth y DU yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn gwariant ar gyfer ***Horizon 2020*** ac mae'n disgrifio hyn fel rhywbeth afrealistig nad yw'n cyd-fynd â'r angen i ffrwyno mwy ar y gyllideb (paragraff 39 o'r Memorandwm).

Yn gyffredinol mae Llywodraeth y DU hefyd yn cefnogi'r strwythur arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r tri

[1] Ar gael ar **Wefan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU**

amcan strategol a'r cynigion ar gyfer pob un o'r amcanion hyn, ond awgryma rai newidiadau e.e. o ran yr amcan Arweinyddiaeth Ddiwydiannol, ffocws cliriach ar gaffael cyn-fasnachol fel dull o ysgogi arloesi ymysg busnesau bach a chanolig.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn croesawu'n gyffredinol y cynigion am fwy o synergedd rhwng ***Horizon 2020*** a rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE, ac mae'n cefnogi'r amcanion i'w gwneud yn  yn haws i fusnesau bach a chanolig gael mynediad i gronfeydd ***Horizon 2020***, a'r ymrwymiad i symleiddio'r rheolau cyfranogi.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei safbwynt ar y cynigion ar gyfer ***Horizon 2020*** hyd yma, ond deallwn ei bod yn llunio ei safbwynt er mwyn ei fwydo i safbwynt y DU fel rhan o'r trafodaethau.
Yn ei **hymateb** i'r adolygiad o Gyllideb yr UE (tudalen 4, Ebrill 2008) dywedodd:

> ...dylid cynyddu gwariant ar sgiliau a hyfforddiant, ymchwil a datblygu ac ar arloesi.

Fodd bynnag, mewn perthynas â Rhaglen Ymchwil y dyfodol, galwodd hefyd (ar dudalen 5) am

> symleiddio a gwella'r broses o wneud cais i'r rhaglen ariannu hon, yn enwedig er budd busnesau bach a chanolig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei **Rhaglen Lywodraethu** ei bod am drawsnewid y sector AU er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r economi yng Nghymru, a chynyddu'r cysylltiadau rhwng y byd academaidd a byd busnes.

Yng nghyd-destun yr ad-drefnu presennol o ran y system AU yng Nghymru, mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud bod angen i Gymru fod yn '**uchelgeisiol' ynghylch ei hymchwil** er mwyn sicrhau na chaiff ei sefydliadau eu gadael ar ôl.[2]

[2] **Gwefan Llywodraeth Cymru**

Mae **Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain**, strategaeth a chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, yn cydnabod bod sylfaen ymchwil Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU, yn arbennig ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg ac er gwaethaf rhai enghreifftiau o ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol. Yn y Cynllun, noda Llywodraeth Cymru ei bod am i waith ymchwil ffynnu a bod yn effeithiol. Yn ei **Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2011-2012** i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn dyfynnu o'r ddogfen Er Mwyn Ein Dyfodol gan ailbwysleisio y byddai gadael y sylfaen ymchwil bresennol fel y mae yn risg sylweddol i ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol. Ym mis Mai 2010, roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi yr Athro John Harries yn Brif Gynghorydd Gwyddonol cyntaf Cymru. Sefydlwyd Academi Wyddoniaeth Genedlaethol Cymru ar yr un pryd. Bydd strategaeth newydd ar wyddoniaeth yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni sy'n anelu at gefnogi potensial masnachol Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru; mae Arbenigedd Academaidd i Fusnesau (A4B) yn rhaglen chwe mlynedd gwerth £70m sy'n cynnwys arian Cydgyfeirio, sy'n cynnig cymorth i fasnacheiddio Eiddo Deallusol academaidd a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth.

Yn nogfen ***Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd (Gorffennaf 2010)*** Llywodraeth Cymru, amlinellir polisi ag iddo ffocws, sydd wedi'i dargedu at sectorau allweddol penodol. Dywed "Bydd Adnewyddu'r Economi'n symud oddi wrth gymorth uniongyrchol a chyffredinol i gwmnïau, ac yn canolbwyntio bellach ar greu'r amgylchedd cywir i fusnesau lwyddo."  Mae'r dull hwn o dargedu sectorau penodol hefyd yn sail i ***Sgiliau ar gyfer Adnewyddu'r Economi*** ac yn adeiladu ar ***Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru***, sef strategaeth sgiliau bwysig Llywodraeth Cymru.

# Hynt y cynigion drwy sefydliadau'r UE

***Caiff yr adran hon ei diweddaru wrth i'r trafodaethau ddigwydd ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol Sefydliadau'r UE ddod i'r amlwg.***

## Monitro'r cynigion

Caiff cynigion ***Horizon 2020*** eu mabwysiadu drwy'r 'broses ddeddfwriaethol gyffredin' (cydbenderfyniad), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion (h.y. llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau) gytuno ar y testun terfynol, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithredu fel brocer.

Gellir dilyn hynt y cynigion drwy broses gwneud penderfyniadau'r UE ar ddwy wefan (mae'r ddau linc yn mynd â chi'n syth at gynigion Erasmus for All):

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

Sylwer: bydd y tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y drafodaeth gyffredinol ar lefel yr UE, ond ni fyddant yn cynnwys gwybodaeth am safbwyntiau/diddordebau'r DU neu Gymru yn ymwneud â'r cynigion. Trafodir yr olaf o'r rhain yn yr adrannau isod.

## Senedd Ewrop:

Y pwyllgor a fydd yn arwain y trafodaethau fydd y **Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni** dan gadeiryddiaeth Herbert Reul, yr ASE o'r Almaen (Plaid Pobl Ewrop - EPP, adain dde ganol, a'r grŵp gwleidyddol mwyaf yn Senedd Ewrop) . Nid oes unrhyw ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn. Fodd bynnag mae pedwar ASE o'r DU ar y Pwyllgor, tri ohonynt yn aelodau ac un dirprwy.

Cynhaliodd y Pwyllgor hwn sesiwn **cyfnewid barn** gyda Maire Geoghan-Quinn, Comisiynydd Ymchwil yr UE, ar 30 Tachwedd 2011.

Penodwyd y ddau *rapporteur* ar gyfer ***Horizon 2020*** ar 20 Ionawr 2012, sef:

- ***Rheoleiddio Horizon 2020***: Teresa Riera Madurell, ASE o Sbaen (Y Sosialwyr a'r Democratiaid)
- ***Rheolau Cyfranogi ar gyfer Horizon 2020***: Christian Ehler, ASE o'r Almaen (Plaid Pobl Ewrop)

## Cyngor y Gweinidogion:

Y **Cyngor Cystadleurwydd** fydd yn arwain ar hyn yng Nghyngor y Gweinidogion. Mae dau gyfarfod o'r Cyngor hwn wedi'u trefnu (21 Chwefror a 31 Mai) yn ystod **Llywyddiaeth Denmarc o'r UE** a disgwylir i'r Pwyllgor drafod cynigion ***Horizon 2020*** yn y ddau gyfarfod. Bydd Gweinidogion y DU (a'u swyddogion) yn cynrychioli Cymru ar y Cyngor Cystadleurwydd a'i weithgorau.

## Eraill:

- **Cymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA)**
- **LERU (Cynghrair Prifysgolion Ymchwil Ewrop)**
- **CBI**

Lincs i wefannau'n crynhoi ystod o ymatebion:

- **Gwefan Exquisite Life**
- **Gwefan Science Business**

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Gregg Jones (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
11 Rond Point Schuman (6ed llawr)
Brwsel
Gwlad Belg B-1040